Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cylchlythyr Buddsoddi a Monitro

## Diweddariad: Mehefin 2026

Mae'r cylchlythyr hwn yn seiliedig ar ymholiadau gafwyd gan y sector ac unrhyw ddiweddariadau perthnasol gan Medr. Mae croeso ichi anfon unrhyw adborth am gynnwys y cylchlythyr hwn i: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

## Diweddariadau cyffredinol

### Diweddariad ynghylch Manylebau 2026/27

- Rydym yn disgwyl i'r holl fanylebau ar gyfer 2026/27 fod ar gael ar wefan Medr erbyn diwedd mis Mehefin. Noder y bydd y manylebau hyn ar waith o 1 Awst ymlaen. Hyd hynny, dylid parhau i ddefnyddio manylebau 2025/26.

### Telerau ac Amodau Grant 2026/27

- Bydd y term ‘Telerau ac Amodau Grant’ yn disodli ‘Telerau ac Amodau Cyllid’ yn sgil cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio.
- Yn dilyn rhyddhau'r Papur cyllido ar gyfer 2026/27, bydd Medr yn anfon llythyr cychwynnol at sefydliadau yn amlinellu Telerau ac Amodau'r Grant ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Gofynnir i sefydliadau adolygu, llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon erbyn y dyddiad cau penodedig i gadarnhau eu bod yn derbyn y Telerau ac Amodau hynny. Dim ond ar ôl derbyn y Telerau ac Amodau wedi'u llofnodi y bydd dyraniadau cyllid yn cael eu rhyddhau. Cyn gynted ag y derbynnir y ddogfen wedi'i llofnodi, bydd dyraniadau'n cael eu cadarnhau drwy'r ddogfen Cyhoeddiad Cyllid, ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau ategol.

Gall awdurdodau lleol ddisgwyl derbyn y llythyr Telerau ac Amodau Grant cychwynnol ym mis Mehefin 2026.

**Datganiad Polisi Buddsoddi**

- Rydym yn falch o rannu y bydd y Datganiad Polisi Buddsoddi yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol o ddydd Llun 22 Mehefin. Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dogfennau ategol a manylion am sut i ymateb, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Medr maes o law.
- Byddem yn ddiolchgar am eich ymgysylltiad yn yr ymgynghoriad ac yn croesawu ymatebion o bob rhan o'r sector i helpu i lywio datblygiad y Datganiad Polisi Buddsoddi.

## Cyllid amser llawn

- Dim diweddariadau sector.

## Cyllid rhan-amser

**Cymwysterau sydd newydd eu cymeradwyo ar gyfer y Cyfrif Dysgu Personol (CDP)**

| Cyfeirnod LAim OfQual | Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru | Teitl | Cod Rhaglen (LP74) |
|---|---|---|---|
| P0000830 | P0000830 | Gwobr Sefydliad BCS: Sut y Gall Deallusrwydd Artiffisial Gefnogi eich Sefydliad | 9700CXXV |
| P0000831 | P0000831 | Dyfarniad Sylfaen BCS: Dyfarniad mewn Delweddu Data | 9700BXXV |
| P0000832 | P0000832 | Dyfarniad Sylfaen BCS: Dyfarniad mewn Deall Rôl Moeseg wrth wneud Defnydd Cyfrifol o AI | 9700CXXV |
| P0000833 | P0000833 | Dyfarniad Sylfaen BCS: Dyfarniad mewn Dysgu Peirianyddol | 9700CXXV |

- Mae holl gymwysterau'r CDP wedi cael eu diweddaru yn Chwiliadur LLWR ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cymwysterau hyn, cysylltwch â'r tîm.
- Defnyddiwch y ffurflen gais ar gyfer unrhyw geisiadau am raglenni newydd, a chysylltu â'r tîm Buddsoddi a Monitro am unrhyw gymorth.

## Dysgu Oedolion yn y Gymuned

- Cafwyd presenoldeb da mewn pedair sesiwn hyfforddi ar-lein LLWR i reolwyr a staff MIS. Diolch am eich cefnogaeth.

  Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch cyflwyniadau LLWR, cysylltwch â llwr@medr.cymru.

## Prosiectau Arbennig

- Dim diweddariadau sector y mis hwn.

## Cymorth Dysgu Ychwanegol/ADY

- Dim diweddariadau sector y mis hwn.